OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 297 (Cy.50) (C.13)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - 9 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 47(1), 52(3) a 52(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**3**);

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Addysg Uwch 2004.

Darpariaethau sy'n dod i rym

2. Mae darpariaethau canlynol Deddf 2004 yn dod i rym ar 11 Chwefror 2011—

(a) adran 22 mewn perthynas â Chymru;

(b) adran 28(6) i'r graddau y mae'n galluogi rheoliadau i gael eu gwneud;

(c) adrannau 33 i 36 mewn perthynas â Chymru i'r graddau y maent yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud;

(ch) adran 38 i'r graddau y mae'n galluogi rheoliadau i gael eu gwneud;

(d) adran 39 mewn perthynas â Chymru i'r graddau y mae'n galluogi rheoliadau i gael eu gwneud;

(dd) adran 41 mewn perthynas â Chymru.

3. Daw darpariaethau canlynol Deddf 2004 i rym ar 31 Mawrth 2011—

(**1**) 2004 p. 8.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 47(1), 52(3) a 52(6) i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) 1998 p. 30.

(a) adran 27;

(b) adran 28(1) i (5);

(c) adran 28(6) i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn gan erthygl 2(b);

(ch) adran 30(2) a (3);

(d) adran 32(4);

(dd) adran 38 i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn gan erthygl 2(b).

4. Daw darpariaethau canlynol Deddf 2004 i rym ar 31 Mawrth 2011 mewn perthynas â Chymru —

(a) adran 29;

(b) adran 30(1);

(c) adrannau 33 i 36 i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn gan erthygl 2(c);

(ch) adran 39 i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn gan erthygl 2(d);

(d) adran 49 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 6 a nodir ym mharagraffau (e) ac (f);

(dd) adran 50 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 7 a nodir ym mharagraffau (ff) ac (g);

(e) yn Atodlen 6, paragraff 7, hepgor adran 26(3), (4) a (6) i (11) o Ddeddf 1998;

(f) yn Atodlen 6, paragraff 8;

(ff) yn Atodlen 7, diddymu adran 26(3), (4) a (6) i (11) o Ddeddf 1998;

(g) yn Atodlen 7, diddymu yn adran 28(1) o Ddeddf 1998 Act y diffiniadau o "fees" a "publicly-funded institution".

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

9 Chwefror 2011